# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1048(FM) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Medi 2008

**At Brynle Williams:**

Yn dilyn eich cwestiwn i'r Prif Weinidog yn y cyfarfod llawn ar 3 Mehefin 2008 ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â diogelwch ar y ffordd yng ngogledd Cymru, a'i ymrwymiad ef i ddarparu ystadegau ar wrthdrawiadau ar gyfer 2007, gofynnwyd i mi ateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth.

Gallaf gadarnhau y bu 109 o wrthdrawiadau a achosodd anafiadau personol ar hyd ffordd yr A55 yn 2007. Mae'r ffigurau ar gyfer y chwe blynedd diwethaf, sef 2002-2007, a'r ffigur ar gyfer 2007 yn dangos bod nifer y gwrthdrawiadau yn parhau i ostwng yn gyffredinol.

Fe fydd copi o'r ymateb yma yn cael ei rhoi yn y Llyfrgell.